

**Enw:** Robert Saunderson

**Dyddiad geni:** 1780

**Dyddiad marw:** 1863

**Priod:** Rebecca Saunderson (née Thomas)

**Plentyn:** Robert Saunderson

**Plentyn:** Charles Saunderson

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr

**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Bwriadodd ei brentisiaeth yn Lerpwl ond a aeth wedyn i'r swyddfa yng Nghaerlleon a argraffai lyfrau Cymraeg dros [Thomas Jones](#) (1756 - 1820) a [Thomas Charles](#) - gweler dan [Humphreys, John](#) (1734? - 1829). Yn 1803 penderfynodd [Jones](#) a [Charles](#) gychwyn argraffu yn y Bala, a chyflogwyd Saunderson i weithio yno. Yn 1804, peidiodd [Thomas Jones](#) â bod yn rhannol yn y fusnes, a chariodd [Charles](#) hi ymlaen dan enw morwynol ei wraig (gan ei fod ef mewn urddau), gyda Saunderson yn oruchwyliwr - ymddengys ei fod i gael hanner y proffidiau, heblaw ei gyflog fel crefftwr. Pan fu farw [Charles](#) a'i wraig, yn 1814, daeth Saunderson yn berchen y swyddfa, a daliodd ati hyd ei farwolaeth, 13 Rhagfyr 1863, yn 83 oed.

Yr oedd wedi tyfu'n gyfaill mawr i [Charles](#), ac wedi priodi (1806) a Rebecca Thomas, merch i Elisabeth, hoff chwaer [Charles](#). Bu'n gweini ar [Charles](#) yn ei saldra terfynol, ac yr oedd gydag ef pan fu farw; sgrifennodd ei atgofion amdano ar gais yr [esgob Short](#) o Lanelwy, ac argraffwyd hwy'n ddiweddarach yn *Y Goleuad*, [22 Mehefin 1878](#).

Ni wyddai Saunderson fawr o Gymraeg pan ddaeth i'r Bala, ac ni bu erioed yn hollol gartrefol yn yr iaith; teimlai felly'n anghysurus yn seiat y Bala, ac ar awgrym [Charles](#) ymaelododd yn yr Eglwys Sefydledig - yn wir, tyfodd yn Eglwyswr selog.

Ystyrir ei waith fel argraffydd yn dda dros ben, a medrai argraffu Hebraeg a Groeg. Ganddo ef yr argraffwyd bron bopeth o waith [Charles](#) yn 1803-14; yn ddiweddarach (1822-37), ef a argraffai'r cylchgrawn Eglwysig rhagorol [Y Gwylidydd](#), a chyfnodolion Eglwysig eraill. Y mae darlun o Saunderson yn [Y Tadau Methodistaidd](#), ii, 219.

O feibion Robert Saunderson, yr hynaf oedd

### **CHARLES SAUNDERSON (1810? - 1832), ('Siarl Wyn o Benllyn') bardd**

Bu fu farw o'r colera yn New Orleans, 24 Hydref 1832 (*Seren Gomer*, 1833, [94](#)) cyn cyrraedd y 23 oed - y mae gan ['Tegidon'](#) (John Phillips, 1810 - 1877), un o brentisiaid Robert Saunderson, farwnad iddo. Cyhoeddwyd *Gweddillion o Waith Barddonol Charles Saunderson* gan ei dad yn 1845.

Mab arall oedd

## ROBERT SAUNDERSON (1814 - 1865), argraffwr a chyhoeddwr

Ganwyd 9 Awst 1814, bu farw 19 Awst 1865. Hwn, gyda'i ddwy chwaer, a ddaliodd ymlaen ar y fusnes hyd ei farw. Yn 1866 gwerthwyd y gwaith argraffu a chyhoeddi i Edward Jones, hen brentis arall i Robert Saunderson y cyntaf.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

## Ffynonellau

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908) (chwiliwr y fynegai)

*Beirdd y Bala* (1911) (O.M.E.) - detholion o waith Siarl Wyn, 85-92

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804762](https://www.wikidata.org/wiki/Q20804762)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

